Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service



# YMUNWCH Â NI

# CYD-REOLI TÂN

## LLYFR GWYBODAETH RECRIWTIO

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rôl Gweithredydd Rheoli Tân | 5 |
| Swydd-Ddisgrifiad | 6 |
| Y Fanyleb Person | 10 |
| Cyfraddau Tâl | 12 |
| Ydych chi wir eisiau bod yn Weithredydd Rheoli Tân? | 14 |
| Y Broses Ddethol | 16 |


Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

## CYFLEOEDD CYFARTAL

Mae'r ddau wasanaeth yn credu yng ngwerth gwirioneddol gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.


JOINT
EMERGENCY
CONTROL


F7
(107)
INCIDENT
SUPPORT

# BETH YW RÔL GWEITHREDYDD RHEOLI TÂN?

Mae'r Ganolfan Cyd-reoli Tân ar y Cyd (JFC) yn gwasanaethu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ill dau. Mae'r ddau yn wasanaethau modern sy'n addasu ac yn newid i adlewyrchu anghenion y cymunedau gyda diwylliannau amrywiol y maent yn eu gwasanaethu. Mae Gweithredwyr Rheoli Cyd-reoli Tân yn unigolion cadarnhaol hyblyg sy'n gallu ymgorffori'r newidiadau hyn i'w bywyd gwaith i ddarparu cymorth i holl aelodau'r gymuned, gan gynnig cefnogaeth mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Lleolir Cyd-reoli Tân yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd ar safle Pencadlys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn defnyddio technoleg soffistigedig i leoli cyfeiriadau, lleoliadau galwyr a'r peiriannau tân agosaf yn fanwl, mae Gweithredwyr Rheoli yn ateb galwadau brys ac yn byddino adnoddau tân. Maent yn cymryd rhan flaenllaw wrth ddod â digwyddiadau i ben mewn modd llwyddiannus ac yn defnyddio technegau delio â galwadau arbenigol i gynorthwyo galwyr a all fod yn ofnus, yn ddryslyd neu'n gaeth. Maent yn darparu cymorth digwyddiadau gweithredol wrth dracio a monitro cynnydd pob digwyddiad, a chynnal cyswllt drwy law'r rhwydwaith radio cenedlaethol a ddefnyddir gan bob gwasanaeth argyfwng.

Mae angen i Ddiffoddwyr Tân Rheoli allu prosesu gwybodaeth yn sydyn a blaenoriaethu tasgau i adnabod p'un sydd â'r lefel uchaf o bwysigrwydd. Mae'r tasgau'n cynnwys rhoi cyngor achub bywyd i alwyr, ateb llinellau ffôn gweinyddol a chysylltu â'r Heddlu a'r Gwasanaethau Ambiwlans.

Mae rôl Diffoddwr Tân Rheoli yn cynnig llawer iawn o ran boddhad swydd. Nid oes unrhyw ddau ddiwrnod yr un fath ac yn ystod yr holl weithgareddau, mae'n ofynnol i staff gyflawni i'r safonau uchaf oll.

# SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | **YMATEB BRYS** |
| **SWYDD** | **GWEITHREDYDD RHEOLI** |
| **LLEOLIAD** | **CYD-REOLI TÂN – PENCADLYS HEDDLU DE CYMRU PEN-Y-BONT AR OGWR** |
| **YN GYFRIFOL I'R** | **RHEOLWR GORSAF/RHEOLWRAIG** |

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

## PRIF BWRPAS Y SWYDD

- Gweithio fel rhan o dîm i dderbyn galwadau brys ac nad sy'n frys gan aelodau'r cyhoedd ac asiantaethau eraill.
- Penderfynu ar y gweithrediadau sydd eisiau eu gwneud i gwrdd ag anghenion unrhyw argyfwng trwy ddanfon adnoddau yn ôl natur y digwyddiad.

# DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

| | |
|---|---|
| 1 | I ateb a phrosesu galwadau brys, a darparu cymorth priodol i alwyr. |
| 2 | I drosglwyddo a derbyn negeseuon drwy law'r radio. |
| 3 | I fod yn hyfedr wrth weithredu holl offer Rheoli'n gywir. |
| 4 | I sicrhau yr arddangosir yr argaeledd cywir o swyddogion a pheiriannau tân ar bob adeg. |
| 5 | I hysbysu'r gwasanaethau brys a'r cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ôl y weithdrefn a nodir. |
| 6 | I drosglwyddo gwybodaeth i swyddogion y Gwasanaeth yn unol â'r weithdrefn a osodir. |
| 7 | Bod yn wybodus o ran parhad hydwythdedd busnes, gweithdrefnau rheoli wrth gefn ac eilaidd. |
| 8 | I gynnal coflyfrau digwyddiadau cywir lle cofnodir pob gweithgaredd sydd yn gysylltiedig â digwyddiadau. |
| 9 | I ateb a phrosesu galwadau gweinyddol, a darparu cymorth priodol i'r galwyr. |
| 10 | Bod yn gwbl ymwybodol o egwyddorion JESIP |
| 11 | I sicrhau y cofnodir pob diffyg yn gywir a'u hadrodd yn ôl yr angen. |
| 12 | Cyflawni dyletswyddau gweinyddol yn unol â chyfarwydd y rheolwr gwylfa. |
| 13 | I weithio'n gydweithredol â'r holl asiantaethau brys ledled Cymru a thu hwnt yn ôl y gofyn. |
| 14 | Cynorthwyo gydag arddangosfeydd neu gyflwyniadau i ymwelwyr i'r gyfadeilad reoli yn ôl cyfarwyddyd y Swyddog Gwylfa. |
| 15 | Os bydd angen, cynorthwyo â hyfforddi a goruchwylio Diffoddwyr Tân Rheoli sy'n datblygu o fewn y rôl. |

# DISGRIFIAD SWYDD (PARHAD)

## GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Cwblhau'r holl ddyletswyddau sy'n gymesur â'r radd a'r swydd.
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath, a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

## GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth gyflawni'r rôl uchod, mae'n ofynnol i holl weithwyr y ddau sefydliad arsylwi a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd Gwasanaeth sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth y maent yn cael eu cyflogi ganddo a'r Ganolfan Cyd-reoli ill dau.



Byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy iaith ac yn ateb yn eich dewis iaith yn ddi-oed.

# MANYLEB PERSON DIFFODDWYR TÂN RHEOLI

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Sgiliau Rhifedd a Llythrennedd  Lefel 2 neu gymhwyster gyfatebol mewn Sgiliau Hanfodol (e.e. Sgiliau Allweddol 2, TGAU Mathemateg a Saesneg). | Hanfodol | Prawf Gallu |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | Rhaid meddu ar sgiliau bysellfwrdd o safon uchel sy'n galluogi mewnbynnu ac adalw data yn effeithiol gan gynnwys cyflymder a chywirdeb da – o leiaf 35 gair y funud | Hanfodol | Prawf Teipio |
| | Profiad ymarferol o ddyfeisiau sy'n seiliedig ar Windows | Hanfodol | Ymgeisio |
| | Rhaid bod gennych chi brofiad o weithio mewn amgylchedd prysur, gan roi cyngor a chymorth i aelodau'r cyhoedd, e.e. Canolfan alwadau neu brofiad gofal cwsmer | Hanfodol | Ymgeisio |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Ymgeisio |

**Noder:**

- Mae'n ofynnol i ymgeiswyr fod dros 17 a 6 mis oed adeg cyflwyno'r cais.
- Mae'r rôl hon yn cynnwys derbyn gwybodaeth dros y ffôn mewn awyrgylch swnllyd. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr fedru clywed yn glir (gyda chymorth neu fel arall).

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Arddull Bersonol** | Dealltwriaeth a pharch at wahaniaethau pobl. Cyflwyno a darparu delwedd a gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid mewnol ac allanol | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â diogelu data. | Hanfodol | Ffurflen Gais/ Proses Ddethol |
| | Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol | Hanfodol | Ffurflen Gais/ Proses Ddethol |
| | Bod yn gadarnhaol ynghylch newid ac addasu i wahanol ffyrdd o weithio; Yn gofyn am adborth ac yn gweithredu arni, gan ddysgu o brofiad a datblygu ei sgiliau a'i wybodaeth broffesiynol ei hun. | Hanfodol | Ffurflen Gais/ Proses Ddethol |

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Rhinweddau Personol** | Y gallu i weithio'n effeithiol gydag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r gymuned ill dau. | Hanfodol | Ffurflen Gais Cais/Proses Ddethol |
| | Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o wahanol gynulleidfaoedd. Mae'r angen i ddarparu cyfarwyddiadau clir yn hanfodol a chaiff ynganu clir ei asesu. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Gallu parhau yn ddigynnwrf ac yn broffesiynol dan bwysau. | Hanfodol | Ffurflen Gais Cais/Proses Ddethol |

# BETH YW'R TELERAU AC AMODAU?

## CYFRADDAU CYFLOG

| GRADDFA | GYFREDOL | DYFODOL YN SEILIEDIG AR GYNNYDD O 4% |
|---|---|---|
| GWEITHREDYDD RHEOLI TÂN DAN HYFFORDDIANT | £25,819.00* | £26,851.76 |
| GWEITHREDYDD RHEOLI TÂN DATBLYGU | £26,895.00* | £27,970.80 |
| GWEITHREDYDD RHEOLI TÂN CYMWYS | £34,415.00* | £35,791.6 |

*Cyfraddau Cyflog ar gyfer Gweithredydd Rheoli Tân yn ddilys o fis Gorffennaf 2024.

## ORIAU GWAITH

Byddwch yn ymgymryd ag wythnos waith 42 awr, wedi'i weithio ar system rota yn unol â gofynion rota y system ddyletswydd.

# YDYCH CHI WIR EISIAU BOD YN DDIFFODDWR TÂN RHEOLI?

Mae rôl Diffoddwr Tân Rheoli'n ganolog i allu'r gwasanaeth tân ac achub i ymateb yn effeithlon ac effeithiol i ddigwyddiadau ar draws ardaloedd Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gyflogi gweithlu cryf i sicrhau'r gwasanaeth gorau i'n Cymunedau.

# YDYCH CHI'N AWYDDUS I YMLADD TANAU?

Heb amheuaeth mae rôl Diffoddwr Tân Rheoli yn heriol a gwobrwyol ill dau. Bydd angen stamina arnoch i weithio mewn amgylchedd deinamig yn ôl system shifft. Byddwch angen synnwyr cyffredin, ymrwymiad a brwdfrydedd arnoch hefyd i'ch cynnal !

# SUT BYDDWCH CHI'N ELWA OHONI?

Dyw hwn ddim yn debyg i'r un swydd arall. Gall fod yn anrhagweladwy, yn gyffrous a gwobrwyol. Yn ogystal, cewch foddhad a pharch wrth ddarparu gwasanaeth hanfodol i gymunedau Canol a Gorllewin Cymru a De Cymru.

Mae pob Diffoddwr Tân Rheoli'n derbyn addysg a datblygiad cynhwysfawr a pharhaol i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol ym mhob agwedd o'u gwaith.

# OES GYDA CHI DDIDDORDEB O HYD MEWN DOD YN DDIFFODDWR TÂN RHEOLI?

Cynlluniwyd y rhestr hir o gwestiynau dilynol i'ch helpu i benderfynu a yw bod yn Ddiffoddwr Tân Rheoli yn addas i chi. Rhowch dic neu groes ar gyfer pob cwestiwn isod

| | Tic | Croes |
|---|---|---|
| Ydych chi'n rhywun y gall pobl ddibynnu arnoch? | | |
| Ydych chi'n gallu rheoli eich lefelau egni mewn sefyllfaoedd ymestynnol a heriol? | | |
| Ydych chi'n rhywun y gellir dibynnu arno/arni i fod yn brydlon? | | |
| A oes gennych ddiddordeb gwirioneddol mewn pobl? | | |
| Ydych chi'n gallu rheoli eich lefelau ynni mewn sefyllfaoedd ymestynnol a heriol? | | |
| Ydych chi'n barod am ofynion gweithio mewn gwasanaeth gwisg disgybledig lle bydd rhaid i chi gymryd gorchmynion gan bobl eraill? | | |
| A allwch dderbyn bod angen cadw at reolau sy'n nodi beth y gallwch wisgo a beth na allwch wisgo? | | |
| Ydych chi'n rhywun y gellir dibynnu arno/arni i fod rhywle'n brydlon? | | |
| Oes modd i chi dderbyn y cyfrifoldeb o gynrychioli'r Gwasanaeth pan fyddwch a phan na fyddwch yn y gwaith? | | |
| Ydych chi eisiau gweithio fel rhan o dîm agos? | | |

| | Tic | Croes |
|---|---|---|
| Ydych chi'n gallu cydweithio â phobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau? | | |
| A oes gennych y sensitifrwydd i ddelio ag aelodau'r cyhoedd pan fyddant yn ofidus, yn ddryslyd neu'n rhwystrol? | | |
| Ydych chi'n medru cyfathrebu gwybodaeth bwysig i grwpiau blant a/neu oedolion? | | |
| Ydych chi'n gallu gweithio o dan bwysau? | | |
| A fedrwch gadw eich canolbwynt o fewn amgylchedd prysur? | | |
| Ydych chi'n gallu meddwl yn gyflym a datrys problemau gan wybod y bydd llawer yn dibynnu ar eich gweithredoedd? | | |
| Ydych chi wedi ymrwymo i gynnal a datblygu eich sgiliau'n barhaus? | | |
| Ydych chi'n barod i astudio ar ben eich diwrnod gwaith arferol? | | |
| A ydych chi'n gallu cyfleu gwybodaeth fanwl yn glir ar lafar ac mewn fformat wedi'i deipio? | | |

Os wnaethoch chi roi tic ar gyfer POB UN o'r uchod ac yn credu eich bod yn meddu ar yr hyn sy'n ofynnol i wasanaethu a gwarchod y gymuned lle'r ydych yn byw ac yn gweithio, rydym eisiau clywed gennych! Darllenwch y Pecyn Gwybodaeth hwn yn ofalus a chwblhewch ein ffurflen gais ar-lein.

# Y BROSES **DDETHOL**

Mae’r broses ddethol yn cwmpasu cyfnod penodol ac mae’n cynnwys chwe cham.



## 1 CAM UN – FFURFLEN GAIS

Mae'r Ffurflen Gais yn chwarae rôl hanfodol ym mhroses creu rhestr fer. Nodir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Ffurflen Gais gorffenedig ar-lein yn yr hysbyseb.

Darllenwch y ddolen nodiadau canllaw ar Adran Llywio'r ffurflen Ar-lein yn llawn cyn llenwi'r Ffurflen Gais.

## 2 CAM DAU – LLUNIO'R RHESTR FER

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn eich Ffurflen Gais yn penderfynu os byddwch yn camu ymlaen i'r cam nesaf ai peidio. Cofiwch ymateb i'r cwestiynau sydd ynghlwm ar waelod yr adran Manylion Swydd ar yr hysbyseb CORE (adran llywio) Atodwch y rhain fel dogfen pdf yn yr adran berthnasol o'r ffurflen ar-lein.

Gallwch dynnu o unrhyw un o'ch profiadau i ateb y cwestiynau o'ch bywyd cartrefol, gweithgareddau hamdden, gwaith (yn gyflogedig neu'n ddigyflog) gwirfoddol neu'ch addysg.

Cofiwch y pwyntiau cyffredinol canlynol wrth gwblhau'r adran hon.

- Mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn;
- Mae pob cwestiwn yn gofyn i chi ddisgrifio profiad penodol;
- Ar gyfer pob un o'r 8 cwestiwn, dylech ddisgrifio gorau gallwch eich profiad mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd;
- Soniwch yn benodol am un gweithgaredd yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd neu wedi gwneud, yn hytrach nag ysgrifennu yn gyffredinol;
- Am bob cwestiwn, disgrifiwch beth a wnaethoch, pam y gwnaethoch, a beth ddigwyddodd o ganlyniad;
- A fyddech cystal â defnyddio enghreifftiau diweddar o'r hyn a wnaethoch (h.y. o fewn y 3 blynedd ddiwethaf;
- Mae'n syniad da ysgrifennu/teipio eich atebion yn fras cyn i chi gopïo'r fersiwn derfynol i'r ffurflen gais;
- Mae angen i'ch ateb disgrifio beth fuoch yn gwneud. Os byddwch yn darparu gwybodaeth ffug, gwrthodir eich cais.

## 3 CAM TRI – PROFION GALLU

Mae'r cam hwn yn caniatáu i chi arddangos bod gennych y ddawn i ymgymryd â gwaith ar lefel Diffoddwr Tân Rheoli. Byddwch yn ymgymryd â chyfres o brofion gallu gan gynnwys:-

- Prawf teipio sain lle cewch eich asesu am gywirdeb a chyflymdra.
- Prawf rhesymu llafar a fydd yn adnabod eich sgiliau dealltwriaeth ac amgyffred
- Prawf rhifyddol lle bydd gofyn i chi wneud cyfrifiadau o'r math y bydd angen i chi wneud o fewn y rôl.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd i fynychu'r Cam Dethol, sy'n cynnwys Cyfweliad.

## 4 CAM PEDWAR - Y BROSES DDETHOL

**Mae'r cam hwn yn cynnwys cyfweliad a gynhelir yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr..**

Yn ystod y cyfweliad, fe'ch holir â chyfres o gwestiynau sydd wedi'u cynllunio i fesur eich nodweddion a'ch rhinweddau personol. Cynllunnir y cwestiynau hyn i asesu os oes gennych agwedd gadarnhaol at waith a phobl. Maent yn gofyn i chi ddarparu esiamplau o weithgareddau a ymgymerwyd gennych yn y gorffennol ac egluro sut y gwnaethoch fynd i'r afael â'r gweithgareddau hyn a'r ystyriaethau a wnaethpwyd gennych. Unwaith yn rhagor, cewch dynnu ar unrhyw un o'ch profiadau i ateb y cwestiynau parthed eich bywyd cartref, gweithgareddau hamdden, gwaith (yn gyflogedig neu'n ddigyflog) gwirfoddol neu'ch addysg.

Byddwch hefyd yn cael cwestiynau am eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o rôl Rheoli o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Bydd disgwyl i chi wneud ymarfer ffôn byr yn dilyn y cyfweliad

## 5 CAM PUMP - PRAWF MEDDYGOL

Bydd cyflwr meddygol neu gyfyngiad ymarferol sydd, er gwaethaf unrhyw addasiadau rhesymol, yn cynyddu'n sylweddol risg gweithredol unrhyw un o'r canlynol, yn annerbyniol.

- Llewyg sydyn neu analluogi sydyn;
- Doethineb amharus;
- Newid ymwybyddiaeth;
- Anaf/salwch corfforol neu seicolegol sylweddol;
- Unrhyw effaith arall fyddai'n achosi risg iechyd a diogelwch sylweddol i chi ac i eraill.

Bydd yr asesiad unigol yn cynnwys ystyriaeth deg o unrhyw safbwyntiau ac adroddiadau meddygol y dymunwch gyflwyno. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad ynghylch perthnasedd unrhyw risgiau gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr Asesiad Meddygol yn cynnwys y canlynol:

- Holiadur Meddygol;
- Prawf Lliwddallineb;
- Prawf Awdiometreg (clyw);
- Sgrinio pwysau gwaed;
- Prawf taldra a phwysau;
- Prawf Cyffuriau ac Alcohol.

A fyddech cystal â nodi nad ydym yn ymgymryd â phrofion llygaid cyflawn ar gyfer rôl Diffoddwr Tân Rheoli - mae'n dderbyniol i Weithredwyr Rheoli Tân wisgo sbectol neu lensiau cyffwrdd.

## 6 CAM CHWECH - GWIRIADAU CYNGYFLOGI

Mae pob penodiad yn seiliedig ar wiriadau geirdaon boddhaol:

### Gwiriad Adnabod Tystysgrifau

### Cymhwyster Gwreiddiol

### Fetio gan yr Heddlu

### Tystlythyrau

### Prawf Meddygol

### PENODI

Os byddwch yn llwyddo ym mob cam o'r broses recriwtio, byddwch yn derbyn cynnig cyflogaeth pan fydd swydd wag yn codi. Bydd y cwrs cyntaf i recriwtiaid yn cael ei gynnal yn gynnar yn 2024. Mae'r cynnig hwn yn amodol ar anghenion a gofynion sefydliadol. Os na fydd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru swydd wag, bydd eich manylion yn cael eu dal ar restr wrth gefn ac fe'u hystyrir pan fydd swydd wag yn codi. Mae'r rhestr wrth gefn yn ddilys am 18 mis.

Mae cynnig o gyflogaeth yn ddibynnol ar dystlythyrau boddhaol. Pe derbynnir tystlythyr anfoddhaol, tynnir y cynnig o gyflogaeth yn ôl.

## CWRS HYFFORDDI

Darperir hyfforddiant llawn i gyfarparu staff sydd newydd eu penodi â sgiliau sylfaenol Diffoddwr Tân Rheoli.

Bydd angen i chi ymgymryd â swm sylweddol o addysgu am ddeunyddiau damcaniaethol ac ymarferol ill dau. Yn ogystal, bydd disgwyl i chi astudio ac adolygu yn ystod eich amser eich hun. Caiff eich cynnydd ei fonitro'n barhaol drwy law profion ysgrifenedig, llafar ac ymarferol - bydd angen i chi ddangos lefel benodol o gymhwysedd mewn meysydd diffiniedig i'ch galluogi i basio'r cwrs Hyfforddi.

**MAE'R CWRS HYFFORDDI'N CYNNWYS DAU GAM.**

**CAM UN**
Cam 1 – Cwrs chwe wythnos yw hwn, mewn ystafell ddosbarth lle gweithredir oriau swyddfa.

**CAM DAU**
Mae'r cam hwn yn para am chwe thaith ddyletswydd ac yn digwydd o fewn yr amgylchedd gwaith lle byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'ch gwylfa a neilltuwyd ar eich cyfer gan ddilyn yr un patrwm sifft â'ch cydweithwyr.

## GOFYNION YCHWANEGOL

Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu addasiadau rhesymol i oresgyn unrhyw anfantais y gall ymgeisydd ei wynebu yn ystod y broses recriwtio. Os byddwch chi'n llwyddo cael eich cyflogi  gyda ni a fyddech cystal â chofnodi unrhyw ofynion arbennig sydd gennych ar y Ffurflen Gais neu fel arall, cysylltwch â ni'n uniongyrchol i drafod eich anghenion.

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau pellach mae croeso i chi gysylltu ag:
**personél@decymru-tan.gov.uk**
**human.resources@mawwfire.gov.uk**

1.0 - 2024 | J/N MC000259

# CYSYLLTWCH Â NI

## Gwybodaeth bellach:

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

01443 232200
personél@decymru-tan.gov.uk

**www.decymru-tan.gov.uk**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

01267 226832
humanresources@mawwfire.gov.uk

**www.tancgc.gov.uk/cym**